# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Mawrth 2001 i'w hateb ar 27 Mawrth 2001**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. David Melding (Canol De Cymru);** Pryd y cyhoeddir Rhaglen Fusnes Flynyddol nesaf y Llywodraeth. (OAQ10572)

**2. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ei drafodaethau diweddar gyda Paul Murphy ynghylch digolledu pob sector o'r economi Gymreig yr effeithiwyd arno'n ddiweddar gan glwy'r traed a'r genau. (OAQ10565)

**3. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut y gwnaiff y Cynulliad, drwy ddatblygu a chydlynu materion cynhwysiant cymdeithasol, datblygu economaidd ac addysg a dysgu gydol oes, annog pobl yng Nghymru yr ystyrir hwy'n economaidd anweithgar i ddychwelyd i fyd gwaith. (OAQ10560)

**4. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng Prif Weinidog Cymru a gweinidogion Llywodraeth San Steffan ynghylch y posibilrwydd o ohirio'r Cyfrifiad oherwydd problemau clwy'r traed a'r genau. (OAQ10561) [W]

**5. Alison Halford (Delyn);** A wnaiff ddatganiad ar sut y bydd yn cydlynu polisi economaidd, polisi amaethyddol a pholisi twristiaeth er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau clwy'r traed a'r genau mewn rhannau o Ogledd Cymru. (OAQ10581)

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar swyddogaeth Cynulliad

Cenedlaethol Cymru o ran cynnig, datblygu a gweithredu rheolau'r Gymuned yng nghyd-destun y Papur Gwyn ar lywodraeth Ewropeaidd sydd ar fin ei gyhoeddi. (OAQ10566)

**7. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn rhinwedd ei swydd fel Cydlynydd Datblygu Polisi, beth y mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i sicrhau bod y cymunedau y mae arnynt fwyaf o angen cymorth cymdeithasol ac economaidd, yn ei dderbyn. (OAQ10556)

**8. Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff ddatganiad byr ar ei drafodaethau diweddar gyda Paul Murphy ynghylch rhoi'r cyfrifoldeb dros yr heddlu a'r gwasanaethau brys yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ10562)

**9. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff ddatganiad ar y cynnydd a wneir o ran datblygu isadeiledd yng Nghymru sy'n gynaliadwy ac wedi'i gydlynu'n well er mwyn cynnal cymunedau lleol a chreu economi llewyrchus, fel yr amlinellwyd yn gwellcymru.com. (OAQ10557)

**10. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ddiweddar ynghylch cydlynu polisi'r llywodraeth ledled Cymru a Lloegr. (OAQ10545)

**11. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad i ddilyn yr araith "Variable Geometry UK" a draddodwyd ganddo ar 14 Chwefror 2000. (OAQ10551)

**12. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad byr ar y rhan a fydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y ddadl ar strwythur yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. (OAQ10564)

**13. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff roi adroddiad ar y cynnydd a wnaed hyd yma wrth weithredu *Rhoi Cymru'n Gyntaf.* (OAQ10573) **TYNYWYD YN OL**

**14. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro);** Pa drafodaethau a gafodd gyda'i gyd-weinidogion yn San Steffan ynghylch y goblygiadau posibl i Gymru pan ddaw'r Ewro i rym yn llawn yn 2002. (OAQ10575)**TYNYWYD YN OL**

**15. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y modd y mae'r Cynulliad, drwy ddatblygu a chydlynu materion iechyd, gofal cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol, yn bwriadu helpu'r 40% o oedolion yng Nghymru y mae eu hiechyd yn amharu ar eu gweithgareddau cymdeithasol o ddydd i ddydd. (OAQ10559) **TYNYWYD YN OL**

**16. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad byr ar y modd y mae'r Gymraeg yn effeithio ar bob un o feysydd polisi'r Cynulliad, gan gynnwys gofal iechyd, addysg a datblygu economaidd. (OAQ10552)**TYNYWYD YN OL**

**17. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad ar hynt ddiweddar polisi a strategaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Gogledd. (OAQ10554) **TYNYWYD YN OL**

**18. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff ddatganiad ar gryfder y berthynas rhwng Cymru, y DU a gweddill yr UE o ran polisi rhyngwladol. (OAQ10555) **TYNYWYD YN OL**

**19. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff ddatganiad ar ymdrechion diweddar i feithrin cysylltiadau agosach rhwng Cymru a gweddill Ewrop. (OAQ10558) **TYNYWYD YN OL**

**20. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod polisïau'r Cynulliad yn cael eu cydlynu i helpu i fynd i'r afael â'r achosion presennol o glwy'r traed a'r genau. (OAQ10580)

**21. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa drafodaethau a gafodd gyda'r Taoiseach yn ystod ei ymweliad diweddar ynghylch datblygu'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon. (OAQ10571)

**22. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff roi braslun o swyddogaeth Canolfan Ewropeaidd Cymru. (OAQ10579)

**23. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch datblygu dulliau o godi ymwybyddiaeth pleidleiswyr yng Nghymru. (OAQ10576) **TYNYWYD YN OL**

**24. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynnydd a wnaed o ran datblygu partneriaethau busnes ar draws pob sector yng Nghymru. (OAQ10582)

**25. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ei ymdrechion i wella'r berthynas rhwng Cymru a gweddill Ewrop. (OAQ10574)

**26. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'n cydlynu polisïau i helpu'r rhannau hynny o Gymru sydd wedi'u heffeithio'n arbennig gan glwy'r traed a'r genau. (OAQ10546)

**27. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar y rhan a fydd gan y Cynulliad yn y paratoadau ar gyfer y ddirprwyaeth nesaf o'r DU i'r gynhadledd ryngseneddol. (OAQ10563) **TYNYWYD YN OL**

**28. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa ddulliau y mae'n eu defnyddio i sicrhau bod cyfranogiad cymunedol yn cael ei hybu ym mhob agwedd ar bolisi amgylcheddol, polisi diwylliant a pholisi cymdeithasol. (OAQ10553) **TYNYWYD YN OL**